# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 16 Medi 2019 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 16 Medi 2019 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 23 Medi 2019 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET:**
Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn – Arweinydd y Cyngor

**PWNC**
Newidiadau ac ychwanegiadau i gynrychiolaeth y Cyngor ar gyrff allanol

**PENDERFYNIAD**
Cadarnhau bod yr aelodau sydd wedi eu nodi yn yr adroddiad isod yn cynrychioli'r Cyngor ar y Cyrff allanol penodol hyd Ebrill 2022, ac eithrio Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon sydd yn benodiad hyd 31 Hydref 2022.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**
Gweler yr adroddiad swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**
Nid oes unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**
Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn.
Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad perthnasol.

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cyng. Dyfrig Siencyn<br>Arweinydd y Cyngor |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Sian Ellis Williams, Swyddog Dinesig a Chefnogi Aelodau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad | 16-9-19 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | |

**Pwnc :**

Newidiadau ac ychwanegiadau i gynrychiolaeth y Cyngor ar gyrff allanol

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Cadarnhau bod yr aelodau sydd wedi eu nodi isod yn cynrychioli'r Cyngor ar y Cyrff allanol penodol hyd Ebrill 2022, ac eithrio Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon sydd yn benodiad hyd 31 Hydref 2022.

**Panel Heddlu a Throsedd** – penodi'r Cynghorydd Edgar Wyn Owen yn dilyn ymddiswyddiad Y Cynghorydd Peter Read o'r Panel

**Y Ganolfan Arwyddo – Golwg a Sain** – Penodi'r Cynghorydd Huw Wyn Jones yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd Sian Hughes o'r Cyngor

**Cyngor Cymru i'r Deillion** - Penodi'r Cynghorydd Huw Wyn Jones yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd Sian Hughes o'r Cyngor

**Pwyllgor Rheoli Lôn Abaty Bangor** – Penodi'r Cynghorydd Paul Rawlinson yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd W Roy Owen.

**Pwyllgor Rheilffordd y Cambrian** – Penodi'r Cynghorydd Louise Hughes yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd Gethin Glyn Williams

**HWB Caernarfon** – Penodi'r Cynghorydd Ioan Thomas fel sylwebydd yn unig

**Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon** – Penodi'r Cynghorydd Cai Larsen am gyfnod o dair blynedd o 1 Tachwedd 2019.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Ar ddechrau tymor bob Cyngor mae gofyn i enwebu aelodau i gynrychioli Cyngor Gwynedd ar restr o gyrff allanol. Mae'r penderfyniad terfynol ar y penodiadau yma wedi ei osod yn nwylo'r weithrediaeth. Gwneir hyn drwy ofyn am ddatganiadau o ddiddordeb gan aelodau, ymgynghori gyda Arweinyddion Grwpiau ac Aelodau

Cabinet y Cyngor,a ble mae yn berthnasol fe benodir ar sail balans gwleidyddol. . Mewn ambell achos hefyd mae'r gynrychiolaeth wedi ei sefydlu yng nghyfansoddiad y corff y penodir iddi ac yn deillio o swyddogaeth sydd gan yr aelod megis aelod cabinet maes penodol. Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru'r sefyllfa.

**Panel Heddlu a Throsedd**

Enwbir yr aelod i gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y Panel Heddlu a Throsedd ar sail balans gwleidyddol rhanbarthol. Rwy'n fodlon fod yr aelod yn cyrraedd y gofynion ar gyfer ei enwebu.

**Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon**

Mae Gorchymyn Diwygio (Cyfansoddiad) Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon 2012 yn ei gwneud yn ofynnol fod penodiad ymddiriedolwr ar ddiwedd tymor rhagflaenydd am gyfnod penodol o 3 blynedd. Golygai hyn fod y penodiad yn ymestyn y tu hwnt i dymor y Cyngor presennol. Rwy'n fodlon fod yr aelod a enwebir yn cyfarch y gofynion.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Mae'r argymhellion yn adlewyrchu canlyniad y prosesau a amlygwyd uchod ac yn cynrychioli penodiadau priodol i'r cyrff a restrir.

Bydd pecyn gwybodaeth ynglŷn a'r amryw swyddogaethau a chyfrifoldebau gwasanaethu ar gyrff allanol yn cael ei ddosbarthu i'r aelodau.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Prif Swyddog Cyllid – Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

Swyddog Monitro – Rwyf wedi cynorthwyo gyda'r adroddiad yma – Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.